

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Huw Pierce Roberts

---

### Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

#### Ionawr 8fed, 2013

**Presennol:** Huw P Roberts (Cadeirydd), Huw Antur (Is gadeirydd), Ian Trow, Dewi Jones, Arwel LL Jones, Catrin Roberts, Beryl Hughes Griffiths, Heledd Jones, Karl Jones, Rhodri Jones, Alwyn Roberts

Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb, ac yn arbennig i Alwyn Roberts i'w gyfarfod cyntaf fel Cyngorydd Cymuned. Llongyfarchodd Ysgol O M Edwards ar ennill cystadleuaeth genedlaethol y garol unwaith eto. Mynegodd ddiolch y gymuned hefyd i Aelwyd Penllyn am y Gwasanaeth Nadolig arbennig iawn.

- 1128 Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cyngorydd Alan Evans a PC Dylan Jones.
- 1129 Derbyniwyd datganiad buddiant gan Huw Antur ym mater apêl ariannol Eisteddfod yr Urdd.
- 1130 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
- 1131 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Rhagfyr 4ydd, 2012
- 1132 **Materion yn codi :**

1125.1 Bydd y giang cymunedol yn rhoi sylw i'r gordyfiant dros y palmant o flaen Maesypany, a bydd y draeniau yn Nhy'n Ddôl yn cael eu glanhau. Soniwyd hefyd am y wal wrth y toiled. **Gweithredu:** Clerc i egluro i'r Adran berthnasol fod y toiledau yn parhau yn eiddo i Gyngor Gwynedd, a Dewi Jones i sôn wrth y Bwrdd Dŵr am y difrod mae'r lorïau yn ei achosi.

1125.3 Nid oes ymateb wedi ei dderbyn hyd yn hyn i'r llythyr a anfonwyd at Gartrefi Cymunedol Gwynedd.

#### 1133 **Gohebiaeth:**

##### **Gwynedd:**

- 1) Derbyniwyd gwybodaeth am Ymgynghoriad pellach ar reoliadau parthed baw cŵn.
- 2) Derbyniwyd Ymgynghoriad ar Ynni Gwynt ar y tir. Gan mai rheolau cynllunio'r Parc Cenedlaethol sydd mewn grym yn yr ardal hon, nid yw'r ymgynghoriad yn uniongyrchol berthnasol i'r Cyngor Cymuned.
- 3) Toiledau Cyhoeddus. Derbyniwyd cynnig gan y Cyngor Sir i werthu'r toiledau i'r Cyngor Cymuned. Cytunwyd fod y sefyllfa bresennol gyda'r Cyngor Cymuned yn rhedeg y toiledau ar drwydded gan y Cyngor Sir yn ein bodloni ar hyn o bryd, ond fod y Cyngor Cymuned yn fodlon ail ystyried pe byddai'r sefyllfa yn newid (e.e. Partneriaeth Penllyn yn derbyn cyfrifoldeb dros asedau Cyngor Gwynedd yn ardal Penllyn). **Gweithredu:** Clerc

##### **Parc Cenedlaethol Eryri**

- 1) Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i gais Llwyn Piod.

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Huw Pierce Roberts

---

- 2) Ystyriwyd cais NP5/71/L297A i droi beudy 2 Coed y Lôn Cottage i fod yn llety gwyliau - dim gwrthwynebiad.
- 3) Ystyriwyd cais NP5/ 71/T184A i adeiladu estyniad deulawr i Tan y Ffordd – dim gwrthwynebiad, os ydyw'r ffenestri yn cyd-weddu o ran maint, ac os ydyw defnydd yr estyniad yn cyd-weddu gyda'r adeilad gwreiddiol.

### Arall:

- i) Penderfynwyd trafod Apêl Eisteddfod yr Urdd Meirionnydd yn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor.
- ii) Derbyniwyd copïau o "Y Llais" gan Unllais Cymru.

### 1134 Materion eraill:

- 1) Cytunwyd i gynnal Noson Goffi'r Cyngor ar nos Fercher 13/3/13, a rhoi gwahoddiad i Aeron Jones i roi sgwrs am hanes papur Y Cyfnod. Cytunodd Arwel Lloyd Jones i arwain y noson. Y pris mynediad fydd £5 (£1 ar y noson i blant ysgol) a bydd yr arian a godir yn cael ei gyfrannu i Apêl Ambiwlans Awyr Cymru ac Ymchwil y Galon. Bydd y Cynghorwyr yn gwneud cyfraniad unigol o £6. Cytunwyd i ofyn i Ferched y Wawr a Sefydliad y Merched ddarparu lluniaeth fel arfer. **Gweithredu:** Clerc.

### 1135 Materion ariannol:

- 1) Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
- 2) Derbyniwyd gwybodaeth fod y drafferth gyda'r dreth PAYE wedi ei ddatrys, diolch i ymyrraeth ar ein rhan gan Elfyn Llwyd AS.
- 3) Cytunwyd i dalu biliau'r mis.
- 4) Cytunwyd i anfon anfoneb am rent Cwt yr Hers ac, er mwyn hwylustod, gofyn am ddebyd uniongyrchol.
- 5) Ystyriwyd y Praesept a chytunwyd i gadw at yr un gofynion a llynedd sef £8,800. Cytunodd yr is-bwyllgor cyllid i gyfarfod i lunio cyllideb am y flwyddyn nesaf.

**1136 Partneriaeth Penllyn** - derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr. Mae'r gwaith arferol yn parhau ac mae ymdrechion i wireddu'r weledigaeth yng nghylch defnydd o'r Henblas hefyd yn parhau.

Amser gorffen: 9.30pm